

DOGFEN DDRAFFT YMGYNGHOROL

Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd **Strategaeth Trafnidiaeth Amlinellol i gysylltu Prifddinas-Ranbarth Caerdydd**

Cyflwyniad

Mae Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Metro De Cymru yn cyflwyno cyfle i sicrhau ein dyfodol fel pwerdy economaidd a gwella llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Bydd Awdurdod Trafnidiaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCRTA) yn gyfrifol am arwain y broses o gyflawni'r weledigaeth drafnidiaeth ar gyfer y rhanbarth, ac mae'r strategaeth amlinellol hon yn cynrychioli cam tuag at ei gwireddu. Trwy weithio mewn partneriaeth â sefydliadau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector, y nod yw datblygu system drafnidiaeth gynaliadwy, gwbl gysylltiedig o'r radd flaenaf sy'n cynnal a sbarduno ffyniant Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Statws

Dyw hi ddim yn fwriad i gynnwys y ddogfen ymgynghori hon:

- (I) Disodli'r Cynlluniau Trafnidiaeth Leol unigol a gafodd eu cymeradwyo yn 2015 mewn perthynas â'r awdurdodau sy'n rhan o'r Fargen Ddinesig na
- (II) Cael ei ystyried fel modd i gynnal unrhyw ymgynghoriad statudol ffurfiol at ddibenion datblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer y deg awdurdod.

Ni ddylid dehongli unrhyw gyfeiriad yn y ddogfen hon at unrhyw gynllun neu gynnig y caiff y cyfryw gynllun neu gynnig ei weithredu gan naill ai'r Fargen ddinesig neu unrhyw awdurdod sy'n rhan ohoni. Rhaid darllen cyfeiriad at unrhyw raglan neu weithredu arfaethedig yn y ddogfen hon ynghyd â swyddogaeth a swyddogaethau'r CCRTA fel sydd wedi'u nodi yng nghytundeb y Fargen Ddinesig a Chylch Gorchwyl Cyd-bwyllgor Prifddinas-Ranbarth Cymru.

Rhan 1 – Beth yw'r sefyllfa bresennol?

Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Mae Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cynnig cyfle euraidd i drawsffurfio economi de-ddwyrain Cymru. Bydd yn buddsoddi oddeutu £1.2 biliwn yn economi'r prifddinas-ranbarth rhwng nawr a 2036, ac yn cyflawni prosiectau i sbarduno buddsoddiad a thwf economaidd ehangach. Tra bydd ar waith, disgwylir i'r Fargen Ddinesig gyflwyno hyd at 25,000 o swyddi newydd a £4 biliwn ychwanegol o fuddsoddiad sector preifat.¹

De-ddwyrain Cymru yw pwerdy economaidd Cymru, gan gynhyrchu mwy na hanner y Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) yng Nghymru yn 2012. Fodd bynnag, mae'n llusgo y tu ôl i weddill y Deyrnas Unedig (DU), gan gynhyrchu 80% yn unig o GYG cyfartalog y

¹ Gweler Crynodeb Gweithredol Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

DU y pen. Mae hyn yn golygu bod y rhanbarth yn llai cynhyrchiol ar gyfartaledd na gweddill y DU.²

Mae adroddiad y Comisiwn Twf a Chystadleurwydd wedi amlinellu'r potensial y mae'r Fargen Ddinesig yn ei gynnig i'r rhanbarth. Mae wedi canfod y gall Prifddinas-Ranbarth Caerdydd fod yn fwy ffyniannus, yn fwy cynhwysol ac yn fwy cynaliadwy os daw'r rhanbarth yn fwy cysylltiedig a chyd-ddibynnol o lawer. Yr unig ffordd o gyflawni'r blaenoriaethau hyn yw '*os yw buddsoddiad mewn cysylltedd yn cael ei ddefnyddio i sbarduno newidiadau mewn dulliau trafndiaeth, defnyddiau tir newydd, meithrin economi aml-ganolfan a gwella addasrwydd i fyw i bobl ar incwm o bob lefel*'.³

Pwysigrwydd 'Cysylltu Prifddinas-Ranbarth Caerdydd'

Er mwyn manteisio i'r eithaf ar y budd a ddaw yn sgil buddsoddiad y Fargen Ddinesig, mae'n rhaid i'r rhanbarth gael ei gysylltu'n well. Mae'r Fargen Ddinesig yn cydnabod rôl allweddol trafndiaeth wrth gyflawni uchelgeisiau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a gwireddu cyfleoedd y Fargen Ddinesig. Mae Metro De Cymru yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer buddsoddi, gan gynnwys rhaglen Trydaneiddio Llinellau'r Cymoedd, ac mae'r Fargen Ddinesig yn cynnwys £738 miliwn o gyllid i gyflawni hyn. Bydd y strategaeth amlinellol hon yn cefnogi ac yn ychwanegu at y gwelliannau trafndiaeth hyn ac yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at wella cysylltedd trafndiaeth ar draws y rhanbarth.

Mae angen gwelliannau mawr o'r fath i drafnidiaeth i alluogi capasiti a gallu'r rhanbarth i dyfu. Gall gwell trafndiaeth hwyluso twf economaidd a gwella canlyniadau i bobl trwy *gysylltu cymunedau, busnes, swyddi, cyfleusterau a gwasanaethau*.⁴ Er mwyn i economi Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ffynnu, mae'n hollbwysig bod pobl yn cael eu cysylltu â chyfleoedd, bod busnesau'n cael eu cysylltu â'u marchnadoedd, bod entrepreneuriaid yn cael eu cysylltu â syniadau a chyfalaf a bod cyflogwyr yn cael eu cysylltu â doniau a sgiliau.

Yn ôl Stats Cymru, mae 40% o swyddi sydd wedi'u lleoli yng nghanol dinas Caerdydd yn cael eu cyflawni gan bobl sy'n byw y tu allan i Gaerdydd. Yn 2016, roedd hyn yn golygu bod 89,600 o breswylwyr yn teithio o du allan i ffiniau'r Awdurdod Lleol i'r ddinas bob dydd. Roedd 27,800 o bobl yn teithio i'r cyfeiriad dirgroes i weithio ar hyd a lled y prifddinas-rhanbarth. Ar hyn o bryd, mae mwyafrif y bobl sy'n teithio i'r ddinas yn teithio mewn car. Caiff hyn effaith sylweddol ar rwydwaith ffyrdd y brifddinas-rhanbarth.

Mae lefelau presennol tagfeydd traffig yn cael effaith negyddol sylweddol ar gysylltedd a'r economi ranbarthol. Amcangyfrifwyd bod busnesau yng Nghaerdydd yn colli oddeutu £9 miliwn y flwyddyn o ganlyniad i gynhyrchedd a gollir yn sgil tagfeydd traffig.⁵ Canfuwyd hefyd fod busnes yng Nghaerdydd yn dioddef fwyaf o ganlyniad i draffig yn ystod y diwrnod gwaith nag unrhyw ddinas arall yn y DU gyda 'thagfeydd rhwng cyfnodau brig y bore a'r nos, o fewn y ddinas a'r tu allan iddi, sy'n digwydd am 15% o'r amser ar gyfartaledd.'⁶ Bydd dyheadau'r Fargen Ddinesig ar gyfer twf economaidd a

² Pweru Economi Cymru (2015) Bwrdd Cynghori Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

³ Adroddiad y Comisiwn Twf a Chystadleurwydd (tud. 6)

⁴ Y geiriau mewn llythrennau italig yw'r rhai a ddefnyddir yn Amcan 1 y Fargen-Ddinesig (Adran 3.4, tud. 11 Cytundeb Gweithio ar y Cyd y Fargen Ddinesig)

⁵ Mynegai Traffig TomTom 2016

⁶ Cerdyn Sgorio Traffig INRIX 2016

mwy o ffyniant ar draws y rhanbarth yn arwain at fwy o alw am deithio. Mae'n hollbwysig bod gwelliannau i drafnidiaeth a chysylltedd yn ceisio mynd i'r afael â thagfeydd yn awr yn ogystal â diogelu yn erbyn cynnydd mewn traffig yn y dyfodol.

Bydd y Strategaeth Amlinellol hon yn amlygu'r gwaith sy'n angenrheidiol i sicrhau trafndiaeth a chysylltedd ar draws y rhanbarth, gan helpu i ffurfio patrwm datblygiad a thwf economaidd. Nid yw 'Cysylltu'r Prifddinas-Ranbarth' yn ymwneud â rhagfynegi'r dyfodol ac ymateb yn unol â hynny; mae'n ymwneud â ffurfio a chreu prifddinas-ranbarth llwyddiannus a chydnerth sy'n barod i fynd i'r afael â heriau a chyfleoedd yr 21^{ain} ganrif.

Mae cydweithredu'n hollbwysig i lwyddiant y Fargen Ddinesig a chyflawni'r Strategaeth hon. Sefydlwyd CCRTA i hwyluso'r Fargen Ddinesig drwy baratoi strategaethau rhanbarthol ar gyfer eu cymeradwyo a gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru, Cylchoedd defnyddwyr, diwydiant a budd-ddeiliaid eraill i gydlynu gwaith cynllunio trafndiaeth ar draws De-ddwyrain Cymru. Y bwriad yw i'r CCRTA gydlynu buddsoddiad a chynllunio trafndiaeth ledled de-ddwyrain Cymru, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. Y Strategaeth Amlinellol hon yw'r cam cyntaf tuag at wireddu'r weledigaeth a'r nodau a rennir ar gyfer trafndiaeth ar draws y rhanbarth.

Cydweithredu rhanbarthol ar drafnidiaeth yw un rhan o'r broses yn unig, a bydd rhaid i gydweithredu ddigwydd ar draws agweddau ehangach y Fargen Ddinesig. Bydd hyn yn sicrhau bod strategaeth economaidd y Fargen Ddinesig a'i hymrwymiaidau i gynllunio defnydd tir yn strategol, adfywio a chyflawni cymunedau cynaliadwy yn cael eu hintegreiddio'n llawn â'r strategaeth ar gyfer trafndiaeth yn y dyfodol.

Nid ateb tymor byr yw'r Fargen Ddinesig. Rhaglen tymor hir ydyw o fuddsoddiad a chyfleoedd a fydd yn sbarduno twf economaidd ac yn gwella bywydau'r bobl yn y rhanbarth. Mae'r Strategaeth Amlinellol hon yn darparu cysylltiad ac yn cydnabod bod angen rhaglen tymor hir o fuddsoddiad i ddatblygu system drafnidiaeth o'r radd flaenaf sy'n bodloni anghenion a dyheadau'r rhanbarth. Mae'r Strategaeth Amlinellol hon yn amlygu sut y bydd y cysylltiadau'n cael eu gwneud i sicrhau llwyddiant tymor hir y Fargen Ddinesig a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Rhan 2 – Beth yw'r nod?

Gweledigaeth ar gyfer 'Cysylltu Prifddinas-Ranbarth Caerdydd'

Mae angen gweledigaeth tymor hir ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd sydd wedi'i gysylltu'n dda. I gefnogi nodau tymor hir y Fargen Ddinesig, ein gweledigaeth ar gyfer trafndiaeth ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yw:

System drafnidiaeth gynaliadwy, hygyrch a chwbl integredig o'r radd flaenaf, sy'n datgloi twf economaidd ac yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd⁷.

Elfennau craidd y weledigaeth – Yr Economi, Cynhwysiant a Datblygu Cynaliadwy⁸

⁷ ['Llesiant' – cyfeiriad at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015]

Mae adroddiad y Comisiwn Twf a Chystadleurwydd wedi amlinellu'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd mewn perthynas â thair agwedd – Yr Economi, Cynhwysiant a Datblygu Cynaliadwy. Mae cysylltiad agos rhwng yr agweddau hyn a bydd angen canolbwyntio ar bob un ohonynt er mwyn sicrhau llwyddiant Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn y dyfodol. Mae'r agweddau hyn ffurfio tair elfen graidd ein gweledigaeth.

Yr Economi

Nod trosfwaol y Fargen Ddinesig hon yw gwella ffyniant economaidd yr ardal. Bydd hyn yn arwain at economi lle mae cynhyrchedd yn cael ei gynyddu, cyfraddau cyflogaeth yn cael eu codi, busnesau'n cael eu meithrin a'u cefnogi, arloesedd yn cael ei annog, buddiannau economaidd yn cael eu rhaedru ar draws y rhanbarth a chyfleoedd ar gael i bawb.

Mae trafndiaeth yn allweddol i gyflawni twf economaidd. Mae'n gallu cyflwyno cyfleoedd datblygu a gwella canlyniadau i bobl trwy gysylltu cymunedau, busnes, swyddi, cyfleusterau a gwasanaethau. Mae'r seilwaith trafndiaeth presennol ar draws y rhanbarth yn cyfyngu'r potensial ar gyfer twf economaidd oherwydd bod problemau tagfeydd a chapasiti trafndiaeth sylweddol yn bodoli y mae angen mynd i'r afael â nhw.

Mae'r tabl isod yn tynnu sylw at y ffaith bod cyfanswm y bobl sy'n gweithio yng Nghaerdydd wedi tyfu dros 15,000 rhwng 2014 a 2016. Mae 85% o'r ffigwr yma o ganlyniad i gynydd yn nifer y bobl sy'n teithio i Gaerdydd o'r ardaloedd cyfagos.

Swyddi yng Nghaerdydd a Chynnydd mewn Cyflogaeth

	Cyfanswm y trigolion sy'n gweithio	Cyfanswm y bobl sy'n gweithio yn yr awdurdod	Cyfanswm y bobl sy'n teithio i'r gwaith
2014	164,900	213,300	48,400
2016	167,300	229,100	61,800
Newid	+2,400	+15,800	+13,400

Ffynhonnell: StatsCymru

Mae'r Fargen Ddinesig yn cynnig cyfle i fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn a chyflawni system drafnidiaeth fwy effeithlon ac effeithiol sydd wedi'i chysylltu'n well, a fydd yn cefnogi twf economaidd trwy:

- Ehangu marchnadoedd llafur,
- Gwella mynediad at gyflogaeth a hyfforddiant,
- Datgloi safleoedd ar gyfer datblygu,
- Darparu canolfannau atyniadol ar gyfer lleoli busnes ar draws y rhanbarth,
- Annog buddsoddiad sector preifat, a
- Lleihau costau busnes trwy wella cysylltiadau rhwng cyflenwyr, cynhyrchwyr a marchnadoedd.

⁸ Mae'r geiriad yn yr adran hon (o dan benawdau'r Economi, Cynhwysiant a Datblygu Cynaliadwy) yn ceisio cyfleu/ crynhoi prif ganfyddiadau rhan 3 adroddiad y Comisiwn Twf a Chystadleurwydd (tud. 22-43).

Cynhwysiant

Mae angen gwella ansawdd bywyd pobl sy'n byw ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd er mwyn gwireddu nodau economaidd y Fargen Ddinesig. Bydd hyn yn arwain at ranbarth sy'n well o ran ansawdd bywyd a lleoliad ac sy'n sicrhau bod y cyfleoedd sydd ar gael yn fwy hygyrch i bawb. Bydd hyn yn cynnwys hygyrchedd ffisegol trwy ddarparu gwell seilwaith sy'n cefnogi cymunedau sy'n addas i fyw ynddynt a thrwy sicrhau bod pobl yn meddu ar y sgiliau y mae arnynt eu hangen i gael mynediad at y cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael.

Gall trafndiaeth well gefnogi cynhwysiant trwy:

- Wella cysylltedd rhwng cymunedau a chyfleoedd,
- Gwella mynediad at wasanaethau i bobl ar draws y rhanbarth, gan gynnwys yr ardaloedd mwyaf difreintiedig,
- Galluogi pobl i gael mynediad at sgiliau, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth,
- Cynnig dewisiadau trafndiaeth ymarferol a chyfleus i bobl sydd heb gar,
- Cydymffurfio â rheoliadau sy'n ymwneud â phobl a chanddynt symudedd is,
- Lleihau allgáu o ganlyniad i gost teithio, a
- Gwella ansawdd bywyd preswylwyr.

Datblygu Cynaliadwy

Mae angen i gynaliadwyedd ac ystyried cenedlaethau'r dyfodol fod yn sail i bob elfen o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae ystyriaethau amgylcheddol yn ganolog i lwyddiant tymor hir y rhanbarth, ac mae angen i'r seilwaith a'r gwasanaethau a ddarperir fynd i'r afael â heriau fel poblogaeth sy'n heneiddio a thwf cyfyngedig y boblogaeth mewn rhai ardaloedd. Bydd hyn yn arwain at ranbarth lle mae lleoliad a natur luosganolog datblygiad yn cynyddu'r manteision i'r eithaf i'r holl breswylwyr, lle mae allyriadau carbon yn cael eu lleihau a lle mae gwelliannau mewn ansawdd aer yn cael eu sicrhau.

Gall gwell trafndiaeth a chysylltedd gefnogi datblygu cynaliadwy trwy:

- Gyflawni newid mawr tuag at drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol
- Datgloi safleoedd datblygu posibl ar gyfer cyflogaeth a thai,
- Gwella mynediad at gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant,
- Gwella mynediad at wasanaethau, hamdden a thwristiaeth,
- Adfywio canolfannau rhanbarthol allweddol,
- Cyfrannu'n sylweddol at leihau carbon,
- Mynd i'r afael â phroblemau tagfeydd a llygredd aer,
- Gwarchod a gwella'r amgylchedd adeiledig a naturiol, a
- Gwella ansawdd bywyd preswylwyr.

Amcanion Trafndiaeth ar gyfer 'Cysylltu Prifddinas-Ranbarth Caerdydd'

Mae gwell trafndiaeth a chysylltedd yn hollbwysig i lwyddiant Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn y dyfodol. Ategir ein gweledigaeth ar gyfer 'Cysylltu Prifddinas-Ranbarth Caerdydd' gan ddeg amcan strategol, sy'n darparu cyfeiriad a phwyslais ar gyfer meysydd y mae angen buddsoddi ynddynt er mwyn cyflawni'r weledigaeth tymor hir. Y rhain yw:

1. Gwella cysylltedd rhwng Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a gweddill Cymru, y DU ac Ewrop.
2. Gwella mynediad ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, i Gaerdydd ac o fewn Caerdydd a chanolfannau eraill pwysig, ac i ardaloedd menter, maes awyr a phrif byrth y rhanbarth.
3. Gwella mynediad i bawb at gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant, gwasanaethau, gofal iechyd, addysg, twristiaeth a chyfleusterau hamdden.
4. Gwella ansawdd, atynioldeb, effeithlonrwydd a dibynadwyedd y system drafnidiaeth ranbarthol.
5. Gwella integreiddio a chyfnewid o fewn a rhwng dulliau trafndiaeth.
6. Cynyddu faint o deithiau a wneir trwy ddulliau cynaliadwy o drafnidiaeth fel trafndiaeth gyhoeddus a theithio llesol.
7. Lleihau effeithiau amgylcheddol trafndiaeth, gan gynnwys allyriadau tŷ gwydr, llygredd aer a sŵn.
8. Gwella diogelwch a diogeledd y system drafnidiaeth.
9. Gwella gwybodaeth am deithio i alluogi pobl i wneud dewisiadau teithio gwybodus, cynaliadwy, iach a llesol.
10. Lleihau a chydbwyso'r galw am deithio trwy ddylanwadu ar leoliad datblygiad newydd a galluogi twf lluosganolog.

Mae amcanion 'Cysylltu Prifddinas-Ranbarth Caerdydd' yn cefnogi uchelgeisiau'r Fargen Ddinesig, strategaethau ehangach Llywodraeth Cymru, fel y rhai hynny ar gyfer trafndiaeth, datblygu economaidd, adfywio, trechu tloedi a'r newid yn yr hinsawdd⁹, a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd y weledigaeth a'r amcanion a amlygir yn y Strategaeth Amlinellol hon yn gofyn am fynd i'r afael â heriau'r rhanbarth ac achub ar gyfleoedd i ddatblygu rhanbarth sydd wedi'i gysylltu'n dda sy'n bodloni anghenion a dyheadau pawb.

Rhan 3 - Rôl Awdurdod Trafndiaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wrth 'Gysylltu Prifddinas-Ranbarth Caerdydd'

Bydd CCRTA yn gweithio i ddatblygu dyheadau trafndiaeth y Fargen Ddinesig mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru. Mae gan y deg awdurdod lleol sy'n ffurfio CCRTA gyfrifoldebau helaeth ar gyfer darparu gwasanaethau trafndiaeth ar draws y rhanbarth. Maen nhw'n rheoli'r grŵp asedau mwyaf yn y sector cyhoeddus; y rhwydwaith priffyrdd a thrafnidiaeth (costau amnewid gros £16.5 biliwn), ac maen nhw'n cynllunio a gweithredu strategaethau a rhaglenni i wella'r cynnig trafndiaeth presennol a datblygu ffyrdd newydd o weithio.

Mae'r asedau'n cynnwys oddeutu:

- 9000 o filltiroedd o'r rhwydwaith ffyrdd lleol a strategol, gan gefnogi dros 13 biliwn o gilometrau cerbydau teithio bob blwyddyn,
- 10,000 o filltiroedd o lwybrau troed,
- 800 o gyffyrdd a reolir gan oleuadau traffig a chroesfannau i gerddwyr a reolir,
- 170,000 o oleuadau stryd,
- 6,000 o adeileddau priffyrdd (pontydd, waliau cynnal, cwlfertau, ac ati),

⁹ (Strategaeth Drafnidiaeth Cymru; Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad newydd (2010); Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid: Fframwaith adfywio newydd (2013); Creu Cymunedau Cryf: Symud ymlaen â'r cynllun gweithredu ar gyfer trechu tloedi (2013); Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd (2010))

- 24 safle parcio a theithio bws a rheilffordd sy'n cynnwys bron 2000 o leoedd
- 19 o orsafoedd bysiau a bron 9,500 o safleoedd bysiau.

Mae cynghorau hefyd yn caffael cannoedd o gontractau gwasanaethau bws cyhoeddus, yn cyhoeddi mwy na 320,000 o docynnau bws rhatach ac yn gweinyddu cyllid ar gyfer cynlluniau bws rhatach a chymorth gwasanaethau bws, sy'n cyfrif am oddeutu £60 miliwn o arian cyhoeddus.

Mae CCRTA yn gallu, gyda chytundeb awdurdodau unigol, trefnu a chydlynu grymoedd yr aelod-gynghorau, gan gynnwys;

- Cynllunio a darparu prosiectau priffyrdd, trafndiaeth gyhoeddus, parcio a theithio, a theithio llesol newydd, gan gynnwys grymoedd i brynu tir yn orfodol ar gyfer cynlluniau trafndiaeth a hyrwyddo prosiectau rheilffyrdd trwy ddefnyddio grymoedd y Ddeddf Trafndiaeth a Gweithfeydd,
- Sefydlu Partneriaethau Ansawdd Bysiau a chontractau ansawdd i ddarparu gwasanaethau bws gwell,
- Pennu taliadau parcio mewn meysydd parcio cyhoeddus ar draws y rhanbarth fel offeryn polisi i ddylanwadu ar ddewisiadau teithio a defnyddio unrhyw incwm ychwanegol i ariannu'r seilwaith,
- Gorfodi troseddau parcio a symud tramgwyddau traffig er mwyn gwella dibynadwyedd amser teithio bysiau a thraffig cyffredinol, gan glustnodi'r elw i wella priffyrdd a thrafnidiaeth o fewn yr awdurdodau perthnasol,
- Cydlynu gwaith stryd i leihau'r effaith ar dagfeydd ac oedi.

Mae gan awdurdodau CCRTA hanes hir a llwyddiannus o weithio ar y cyd a darparu rhaglenni, ac maen nhw mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd a gynigir gan y Fargen Ddinesig a gweithio gyda'i gilydd i gyflawni'r blaenoriaethau ar gyfer y rhanbarth.

Trwy weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r diwydiant trafndiaeth, rydym wedi sefydlu Bwrdd Cynghrair Integreiddio (IAB) i ddatblygu menter integreiddio er mwyn cydweddu a chydlynu'r holl wasanaethau cludo teithwyr ar draws y rhanbarth, gan gynnwys prisiau a thocynnau, i gefnogi symudiad didrafferth ar draws pob dull trafndiaeth.

Wrth iddo ddatblygu, bydd CCRTA yn bartner allweddol wrth gyflawni Metro De Cymru, datblygu a chyflawni agweddau trafndiaeth y Fargen Ddinesig a datblygu amcanion trafndiaeth ranbarthol ehangach ar sail strategol.

Rhan 4 - Sut byddwn yn cyrraedd y nod?

4.1 Rhaglen Gyflenwi Strategol

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth ar gyfer trafndiaeth, bydd angen rhaglen gyflenwi strategol uchelgeisiol a thymor hir. Y Strategaeth Amlinellol hon yw'r cam cyntaf tuag at ddatblygu Strategaeth Drafndiaeth Ranbarthol ehangach a fydd yn disgrifio'r prosiectau a'r rhaglenni a gyflwynir yn ystod yr 20 mlynedd nesaf yn fanylach.

Mae'r rhaglen ar gyfer trafndiaeth yn y dyfodol yn bwriadu canolbwyntio ar y prosiectau allweddol hynny a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar draws y rhanbarth a'r budd mwyaf o

ran gwella cysylltedd i gymunedau a busnesau. Bydd y rhaglen gyflenwi'n gofyn am gyfuniad o brosiectau sy'n buddsoddi mewn seilwaith ffisegol a'r rhai hynny sy'n cydnabod y cyfleoedd a gynigir gan dechnoleg. Bydd angen cyflenwi'r ddau ar yr un pryd (a bwrw bod cyllid ar gael) er mwyn sicrhau bod y potensial a gynigir gan drafndiaeth yn cael ei wireddu.

Mae pum math o deithio wedi cael eu hamlygu:

Dinas-ranbarth sydd wedi'i gysylltu'n fyd-eang

Mae cysylltiadau rhyngwladol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, trwy'r awyr, ar y rheilffyrdd, ar y ffyrdd ac ar y môr, yn hollbwysig i'n galluogi i gystadlu'n effeithiol yn fyd-eang. Bydd cysylltiadau rhyngwladol rhagorol yn cefnogi mewnffuddsoddi a thwristiaeth.

Mae cysylltiadau rhyngwladol y Prifddinas-Ranbarth yn cynnwys Maes Awyr Caerdydd a thri phorthladd mawr. Mae Prif Linell Great Western, yr M4 a ffordd yr A465 Blaenau'r Cymoedd, sy'n rhan o'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd, yn cysylltu â meysydd awyr rhyngwladol eraill ac yn ased mawr i gysylltedd byd-eang. Mae manteisio i'r eithaf ar fuddion yr asedau hyn yn gyfle economaidd arwyddocaol.

Yn ogystal, mae'r rhanbarth eisoes yn lleoliad strategol pwysig ar gyfer symud nwyddau ar y ffyrdd, ar y rheilffyrdd ac ar y môr. Mae ein porthladdoedd yng Nghaerdydd, Casnewydd a'r Barri yn ymestyn dros ardal o 2,000 o erwau, yn trafod mwy na 3.5 miliwn o dunelli o nwyddau bob blwyddyn, ac yn ased rhanbarthol pwysig. Efallai bydd targedu buddsoddiad at ddatblygu cyfleoedd sy'n gysylltiedig â nwyddau a gludir trwy'r awyr yn ein helpu i ddatblygu mantais strategol ymhellach hefyd.

Bydd gwella cysylltedd rhyngwladol yn sicrhau bod Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi'i gysylltu'n fyd-eang, gan gefnogi mewnffuddsoddi a thwristiaeth. Bydd gwella mynediad at Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd a chyfnewidfa Caerdydd Canolog yn brosiectau pwysig, ynghyd â chynlluniau i wella cysylltedd hirbell i ranbarthau eraill yng Nghymru a thros y ffin i Loegr.

Cysylltiadau rhwng Dinasoedd

Bydd trydaneiddio prif linell reilffordd Caerdydd i Lundain erbyn 2019, cynigion ar gyfer ffordd liniaru ar gyfer y M4 a chwblhau prosiect deuoli'r A465 Blaenau'r Cymoedd erbyn 2022 yn gwella cysylltiadau rhwng dinasoedd ledled Cymru, i Lundain, Canolbarth Lloegr a De-orllewin Lloegr yn sylweddol. Bydd hyn yn helpu i leihau amseroedd teithio ac amrywioldeb amseroedd teithio ar goridau ffyrdd a rheilffyrdd allweddol. Bydd mynediad at ein coridorau trafndiaeth allweddol a'n prif gyfnewidfeydd trafndiaeth yn cael ei wella ar gyfer pob dull o deithio, a bydd y lleoliadau hyn yn dod yn ganolbwyntiau ar gyfer twf economaidd a datblygiad newydd.

Cyrraedd y ganolfan Ranbarthol a theithio ynddi

Canol Dinas Caerdydd yw canolfan economaidd y prifddinas-ranbarth, yn ogystal â bod yn ardal twf preswyl bwysig. Mae data'r cyfrifiad yn dangos bod bron traean o'r teithiau i'r gwaith o fewn y rhanbarth yn diweddu yng Nghaerdydd. I atal tagfeydd rhag tanseilio

twf economaidd ar draws y rhanbarth, bydd angen newid mawr o ddefnyddio ceir i drafndiaeth gyhoeddus, beicio a cherdded sy'n cyfateb i 50:50 o leiaf.

Tra bod y mwyafrif o bobl sy'n cymudo i Gaerdydd yn gwneud hynny mewn car, mae data Cyfrifiad 2011 yn dangos bod 76% o bobl sy'n cymudo ar dren i weithio yng nghanol y ddinas yn byw y tu allan i ffin Awdurdod Lleol Caerdydd. Mae'r galw am drenau hefyd yn cynyddu ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae data Stats Cymru yn dangos bod cynnydd o 550% wedi bod yn nifer y teithiau o Flaenau Gwent, 99% yn nifer y teithiau o Ferthyr Tudful a 53% yn nifer y teithiau o Dorfaen. Mae nifer y bobl sy'n teithio ar dren i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi cynyddu 29% yn ystod y cyfnod yma.

Mae cwmni Network Rail yn rhagweld y bydd nifer y bobl sy'n teithio i Gaerdydd ar drên yn parhau i gynyddu ar hyd a lled y Brifddinas-Ranbarth. Mae Arolwg Llwybrau Cymru 2016 yn rhagweld y bydd nifer y bobl sy'n teithio i Gaerdydd yn dyblu erbyn 2043 gyda mwyafrif y bobl yn dod o ardaloedd y Cymoedd. Mae'r tabl isod, sydd yn dod o arolwg Network Rail, yn dangos y twf yn y galw gan deithwyr sy'n cymudo i Gaerdydd.

Twf yn y galw gan deithwyr sy'n cymudo i Gaerdydd.

	Twf amcangyfrifedig	
	2023	2043
Coridor i Gaerdydd	76%	153%
Gwasanaethau'r Cymoedd	80%	15%
Bro Morgannwg	112%	205%
Llwybr Glynebwy	56%	124%
Abertawe	46%	120%
Prif Linell y Great Western	38%	96%
Y Mers	68%	144%
Cyfanswm bob coridor		

* ar sail senario Ffynnu mewn Sefydlogrwydd Byd-eang (PGS)

Ffynhonnell: Network Rail

Bydd y Metro'n cefnogi hyn trwy ddarparu trafndiaeth gyhoeddus capasiti uchel o ansawdd da a darpariaeth feicio ar fwy o lwybrau rheidiol i'r canol. Bydd hyn yn sicrhau bod mwy o bobl yn cael mynediad at swyddi ac yn lleihau tagfeydd ar ein rhwydwaith ffyrdd, gan wella amseroedd teithio ac yn fwy dibynadwy i gymudwyr a gweithredwyr busnesau. Bydd gwell cysylltedd i Gaerdydd yn sicrhau bod pob rhan o'r rhanbarth yn elwa o'i thwf.

Teithio ar draws y Prifddinas-Ranbarth ehangach

Mae gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd rwydwaith o ganol trefi a phrif leoliadau cyflogaeth y tu allan i'r ddwy ganol dinas. Un o'r heriau ar gyfer ein strategaeth yw sicrhau bod modd teithio'n rhwydd i gyrchfannau allweddol fel canol trefi, ardaloedd cyflogaeth, ysbytai a cholegau, a sicrhau bod canolfannau yn y Cymoedd yn cael eu cydgysylltu.

Bydd buddsoddi mewn trafndiaeth fel y Metro yn helpu i drawsnewid ein canol trefi rhanbarthol yn lleoliadau atyniadol ar gyfer cyflogaeth gydag economïau bywiog a mwy amrywiol, a mwy o bobl yn byw ynddynt ac o'u cwrpas. Bydd strydoedd a manau

cyhoeddus atyniadol yn helpu i ddenu buddsoddiad newydd. Mae angen i ni sicrhau bod modd teithio i'n prif ganol trefi trwy drafnidiaeth gynaliadwy, gan ddefnyddio gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau cerdded a beicio o ansawdd uchel.

Bydd gwella cysylltedd rhanbarthol yn rhan bwysig o wireddu uchelgeisiau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Yw bwriad yw y bydd prosiectau trafnidiaeth strategol yn cael eu cyflenwi i gysylltu cymunedau, busnesau, swyddi, cyfleusterau a gwasanaethau'n well. Mae'r prosiectau yn cynnwys gwelliannau ar raddfa fawr i'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus a phriffyrdd er mwyn gwella mynediad preswylwyr a busnesau i gyrchfannau allweddol ar gyfer cyflogaeth, addysg, iechyd, manwerthu a hamdden, gan gefnogi datblygiad economaidd ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a chynnig cyfleoedd datblygu a fydd yn galluogi lleoliadau twf lluosog.

Cymdogaethau cysylltiedig

Mae angen i bobl gael mynediad atyniadol a fforddiadwy at swyddi, ysgolion, siopau a chyfleusterau eraill. Cysylltiadau lleol da yw'r sail i rwydwaith trafnidiaeth effeithiol, gan fod cysylltiadau â gorsafoedd a safleoedd trafnidiaeth gyhoeddus (trenau a bysiau) yn rhan hanfodol o deithiau hirach. Byddwn yn ceisio sicrhau bod cymdogaethau a chanol trefi'n addas i gerddwyr a beicwyr, trwy arafu traffig a darparu llwybrau diogel. Ar yr un pryd, bydd angen i ni gynnal mynediad ar gyfer danfoniadau a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Bydd gwella cysylltedd lleol yn cysylltu cymunedau â chyfleoedd ehangach ac yn rhoi cyfle i bobl wneud dewisiadau teithio llesol, iachus a chynaliadwy. Bydd buddsoddi mewn teithio llesol yn darparu cysylltiadau uniongyrchol â'r system trafnidiaeth gyhoeddus ehangach. Mae gwelliannau o'r fath yn cefnogi amcanion y Fargen Ddinesig o greu cymunedau llewyrchus, wedi'u hadfywio sy'n addas i fyw ynddynt a fydd yn gwella ansawdd lleoliad ac ansawdd bywyd i breswylwyr.

4.2 Ymyriadau Blaenoriaeth Strategol ar gyfer 'Cysylltu Prifddinas-Ranbarth Caerdydd'

Bydd teithio cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cael ei dargedu trwy ymyriadau blaenoriaeth strategol sy'n:

- a. Cefnogi'r broses o gyflenwi Metro De Cymru trawsffurfiol a'i gyfleoedd ehangach o ran adfywio a ffurfio lle.
- b. Gwella mynediad at byrth rhyngwladol a chenedlaethol, fel porthladdoedd, y maes awyr, rheilffyrdd rhanbarthol a chenedlaethol, y Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd a Gorsaf Caerdydd Canolog.
- c. Gwella cyfleusterau a chysylltiadau trafnidiaeth gynaliadwy i Ganol Dinas Caerdydd a chanolfannau rhanbarthol allweddol eraill sy'n annog newid o ran dulliau teithio a theithio llesol.
- ch. Gwella coridorau trafnidiaeth strategol trwy welliannau i drafnidiaeth gyhoeddus a phriffyrdd.
- d. Gwella mynediad at gyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus allweddol, a'u hansawdd, er enghraifft trwy wella gorsafoedd trenau a bysiau, a darparu cyfleusterau parcio a theithio strategol a chysylltiadau teithio llesol i gymunedau.

- dd. Cysylltu datblygiadau allweddol, cynyddu mynediad i safleoedd strategol ar gyfer tai a datblygiadau masnachol a defnydd cymysg, a gwella mynediad i Ardaloedd Menter, porthladdoedd a'r maes awyr.
- e. Gwella a symleiddio profiad cwsmeriaid, trwy integreiddio dulliau trafndiaeth yn well, symleiddio tocynnau a darparu gwlybodaeth well.

Mae'r blaenoriaethau uchod yn rhoi canolbwynt ar gyfer y rhaglen gyflenwi strategol, tymor hir ar gyfer trafndiaeth. Trwy ddeall ein blaenoriaethau, gallwn eu gwireddu'n fwy effeithiol. Bydd gwaith yn cael ei wneud yn ystod y blynyddoedd i ddod i ddatblygu'r blaenoriaethau strategol a datblygu rhaglen fanwl o gynlluniau ar gyfer y dyfodol. U bwriad yw, i ddechrau, bydd y rhaglen yn blaenoriaethu nifer o brosiectau strategol a fydd yn cael effaith arwyddocaol a chadarnhaol ni waeth sut y bydd ffactorau eraill yn datblygu. Mae Atodiad 1 yn rhoi manylion y gwaith cychwynnol a fydd yn ofynnol i symud pob un o'r blaenoriaethau strategol ymlaen. Y bwriad yw y bydd canlyniadau'r gwaith hwn yn ffurfio rhan o Strategaeth Drafnidiaeth Ranbarthol ehangach a fydd yn amlinellu'n fanwl sut y gellir cyflawni'r blaenoriaethau.

Wrth ddatblygu'r rhaglen gyflenwi, bydd y cynlluniau arfaethedig yn cael eu hasesu yn erbyn amcanion strategol 'Cysylltu Prifddinas-Ranbarth Caerdydd' a fframwaith sicrwydd y Fargen Ddinesig a'u blaenoriaethu yn unol â hynny, gan ganolbwyntio ar gynlluniau sy'n cyflawni'r budd mwyaf a'r effaith fwyaf ar gyfer y dinas-ranbarth. Mae'r rhaglen tymor hir gychwynnol o gynlluniau i'w hasesu ar gyfer eu cynnwys yn y rhaglen gyflenwi wedi'i darparu yn Atodiad 2. Bydd manylion ychwanegol am y broses flaenoriaethu a'r rhaglen o gynlluniau yn cael eu cynnwys mewn dogfen a fydd yn ategu 'Cysylltu'r Prifddinas-Ranbarth', a ddatblygir yn ystod y 12 mis nesaf.

Mae pwysigrwydd cydweithredu i lwyddiant y Fargen Ddinesig yn fwyaf amlwg wrth ddatblygu'r rhaglen ar gyfer trafndiaeth yn y dyfodol. Bydd y rhaglen gyflenwi ar gyfer buddsoddi mewn trafndiaeth yn cael ei datblygu mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru a bydd yn cyd-fynd â buddsoddiadau ehangach y Fargen Ddinesig.

Ni ellir datblygu'r rhaglen flaenoriaethu ar ei phen ei hun os ydym am wireddu llwyddiant posibl Prifddinas-Ranbarth Caerdydd; bydd yn cael ei llywio gan strategaethau'r Fargen Ddinesig sy'n dod i'r amlwg ar gyfer datblygu economaidd a chynllunio gofodol i gynhyrchu un rhaglen gyflenwi hollgynhwysol ar gyfer y rhanbarth. Bydd hyn yn sicrhau *ymagwedd strategol at drafnidiaeth, tai, adfywio a thwf economaidd i greu Prifddinas-Ranbarth Caerdydd hygyrch a thra chysylltiedig sy'n addas i fyw ynddo ac yn 'integreiddio bywyd a gwaith'*.¹⁰

Mae datblygu a chyflenwi'r rhaglen o gynlluniau ar gyfer y dyfodol yn llwyddiannus yn dibynnu ar gyllid tymor hir trwy amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys rowndiau presennol cyllid y Fargen Ddinesig a rowndiau posibl yn y dyfodol. Buddsoddiad cychwynnol y Fargen Ddinesig yw'r cam cyntaf tuag at ddatblygu blaenoriaethau strategol 'Cysylltu'r Brifddinas-Ranbarth'. Dim ond trwy drefniadau cyllid ymrwymedig, sefydlog a thymor hir ar gyfer trafndiaeth, y tu hwnt i gyfnod y Fargen Ddinesig bresennol, y bydd amcanion a gweledigaeth y rhanbarth yn cael eu gwireddu'n llawn.

¹⁰ Geiriad amcan y Fargen Ddinesig ar gyfer Tai, Datblygiad ac Adfywio (Adran 3.4, tud. 11 Cytundeb Gweithio ar y Cyd y Fargen Ddinesig)

Mae Atodiad 3 yn dangos sut mae'r Ymyriadau Blaenoriaeth Strategol yn cefnogi'r Amcanion Trafnidiaeth.

DRAFT

Atodiad 1 – Camau gweithredu tymor byr i symud yr Ymyriadau Blaenoriaeth Strategol ymlaen

Mae'r tabl isod yn rhoi cipolwg ar y gwaith y mae angen ei wneud yn y tymor byr i symud blaenoriaethau strategol 'Cysylltu Prifddinas-Ranbarth Caerdydd' ymlaen. Yn ystod y cam hwn, mae nifer o ffactorau anhysbys yn gysylltiedig â datblygu'r Fargen Ddinesig a Metro De Cymru. Bydd y camau gweithredu a amlinellir isod yn gryf dan ddylanwad gwaith a wneir mewn meysydd eraill o'r Fargen Ddinesig, fel y strategaethau a'r rhaglenni gweithredu yn y dyfodol ar gyfer datblygu economaidd a chynllunio gofodol.

Mae'r tabl isod yn rhoi syniad cychwynnol o gynlluniau a allai gael eu symud ymlaen yn y tymor byr, ond bydd y rhain, unwaith eto, dan ddylanwad datblygiad a chyfeiriad y Fargen Ddinesig, Metro De Cymru a'r gwaith blaenoriaethu cynlluniau a fydd yn cael ei wneud. Fel y cyfryw, gallai'r camau gweithredu a fanylir isod a chynlluniau posibl a amlygir newid wrth i'r Fargen Ddinesig, Metro De Cymru a'r gwaith blaenoriaethu ddatblygu ymhellach. Gallai gofynion cyfleoedd cyllido yn y dyfodol ddylanwadu ar ba gynlluniau sy'n cael eu symud ymlaen hefyd, er mwyn sicrhau bod y cynlluniau hynny sy'n fwyaf tebygol o gael cyllid yn cael eu blaenoriaethu.

Mae £360,000 o gyllid wedi cael ei ddyrannu i CCRTA i symud gwaith yn ei flaen yn ystod 2017/18. Bydd angen mwy o gyllid o 2018/19 ymlaen i barhau â'r gwaith a fanylir isod a galluogi'r cynlluniau a flaenoriaethwyd i gael eu datblygu a'u cyflenwi.

Ymyrraeth Blaenoriaeth Strategol	Camau Gweithredu ar gyfer Cynllunio Trafnidiaeth
a. Cefnogi'r broses o gyflenwi Metro De Cymru trawsffurfiol a'i gyfleoedd ehangach o ran adfywio a ffurfio lle.	<i>Bydd CCRTA yn gweithio'n agos mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cymru a'r Partner Datblygu a Gweithredu a benodwyd i gyflawni Metro De Cymru. Mae'r CCTRA fydd yn cymorth penodol y gwaith o gynllunio a datblygu prosiectau sy'n gofyn cyfranogiad awdurdodau lleol, gan gynnwys amlygu cyfleoedd eraill ar gyfer buddsoddi, cyfnewidfeydd newydd, ymestyn/trawsnewid llinellau, rhedeg ar y stryd, gwelliannau i orsafoedd, cynigion parcio a theithio a mynediad a allai gynnig gwerth eithriadol os cânt eu hamseru i gyd-fynd â gwaith gwella arall yr ymrwymwyd iddo yn gysylltiedig â'r Metro.</i>
b. Gwella mynediad at byrth rhyngwladol a chenedlaethol, fel porthladdoedd, y maes awyr, rheilffyrdd rhanbarthol a chenedlaethol, y Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd a Gorsaf Caerdydd Canolog.	<u>Cysylltiad â'r Maes Awyr:</u> <i>Mynediad uniongyrchol newydd o'r M4 i Faes Awyr Caerdydd, ynghyd â Chanolfan Trafnidiaeth Strategol wrth Gyffordd 34 (gorsaf prif linell, parcio a theithio, canolfan fysiau).</i> <u>Metro Central: Gwelliannau i Gaerdydd Canolog:</u> <i>Gwelliannau i'r orsaf reilffordd, mynediad a'r gyfnewidfa bws-trên.</i>
c. Gwella cyfleusterau a chysylltiadau trafndiaeth gynaliadwy i Ganol Dinas Caerdydd a chanolfannau	<i>Gwella coridorau bws rhanbarthol trwy fesurau blaenoriaeth i fysiau a seilwaith a gyfatebir gan fuddsoddiad gweithredwyr mewn gwasanaethau gwell yn rhan o Bartneriaeth Ansawdd Bysiau er mwyn annog pobl i newid i ddefnyddio trafndiaeth gynaliadwy ar lwybrau lle y ceir tagfeydd. Gallai coridorau trafndiaeth strategol y gellid eu hamlygu fel blaenoriaethau cychwynnol ar gyfer eu datblygu gynnwys Caerdydd i Gasnewydd a'r A470.</i>

